



Cyfathrebu Hygyrch Gwasanaeth Erlyn y Goron: Datganiad Cyhoeddus

Am Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Y CPS yw'r prif awdurdod erlyn troseddol yng Nghymru a Lloegr; rydym yn gyfrifol am:

- Gyngori'r heddlu ar achosion y gellir eu herlyn o bosibl
- Adolygu achosion a gyflwynwyd gan yr heddlu
- Bennu'r cyhuddiad yn yr achosion mwy difrifol a chymhleth
- Baratoi achosion ar gyfer y llys
- Gyflwyno achosion yn y llys

Am ragor o wybodaeth am y CPS, gan gynnwys ein Safonau Ansawdd Craidd, sy'n nodi pa lefel o wasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, cliciwch yma:

www.cps.gov.uk

Pam ein bod ni wedi gwneud y datganiad hwn

Mae'r CPS yn ymroddedig i weithio digidol a dod yn wasanaeth digidol llawn. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth y byddwn yn ei rhoi i'r cyhoedd am bwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud yn hygyrch i bawb.

Mae'r datganiad hwn yn esbonio beth yr ydym yn ei wneud er mwyn gwneud ein gwybodaeth a'n cyfathrebiadau yn hygyrch, mewn geiriau eraill, beth ydym ni'n ei wneud i sicrhau bod pawb yn medru cael y wybodaeth y mae arnyn nhw ei hangen yn rhwydd, a'i bod yn hawdd ei deall.

Mae cyfathrebiadau yn golygu'r holl ddulliau yr ydym yn eu defnyddio i gyfathrebu â phobl gan gynnwys galwadau ffôn, cyfarfodydd, cyflwyniadau, digwyddiadau cyhoeddus, cyhoeddiadau, ein mewnwyd a'n gwefan, datganiadau i'r wasg, gweithio gyda'r cyfryngau (e.e. teledu, papurau newydd, radio ac ati), negeseuon e-bost a gohebiaeth ysgrifenedig.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod ymrwymiad cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y CPS, i hyrwyddo cydraddoldeb, ystyried anghenion pob unigolyn yn ein gwaith o ddydd i ddydd a chyhoeddi data mewn modd sy'n rhesymol o hygyrch i'r cyhoedd. Am ragor o wybodaeth cliciwch yma:

www.homeoffice.gov.uk/equalities/equality-act/

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau dan y Ddeddf, mae'r datganiad hwn yn darlunio sut yr ydym yn rhagweld anghenion pobl anabl ac yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau y bydd pobl anabl yn medru defnyddio ein gwasanaethau, er enghraifft, trwy gynnig fformatau gwahanol i'n cyhoeddiadau a'n gwybodaeth.

Cod y Dioddefwyr

Pan fyddwn yn cysylltu â dioddefwyr a thystion rydym yn cael ein harwain gan y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau ('Cod y Dioddefwyr'). Mae Cod y Dioddefwyr yn dynodi'r CPS fel 'darparwr gwasanaeth' y mae'n ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau; mae'n gosod y lleiafswm o ran safon

gwasanaeth ac yn anelu at sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybodaeth brydlon a chywir am eu hachos ar bob cam yn y broses gyfiawnder troseddol.

Cliciwch yma i weld y [Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau](#), sydd ar gael ar wefan y CPS ynghyd â chyfarwyddyd cyfreithiol arall perthnasol gan y CPS.

Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys y broses ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth; mae'r broses hon yn cael ei thrin gan yr Uned Rhyddid Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth cliciwch yma: www.cps.gov.uk/foi/feedback.html

Sut yr ydym yn bwriadu gwneud cyfathrebu yn hygyrch

1. Cyfathrebu â ni ar y ffôn neu yn bersonol

Byddwn bob amser yn siarad â phobl sy'n cysylltu â'n gwasanaeth gyda pharch ac yn rhoi gwybodaeth mewn modd sy'n glir a dealladwy.

Mae'r CPS yn croesawu galwadau gan ddefnyddwyr Typetalk. Gwasanaeth yw Typetalk a reolir gan Action on Hearing Loss (RNID fel yr oedd yn cael ei alw) gan alluogi aelodau o'r cyhoedd sydd â nam ar eu clyw, sydd â'r offer angenrheidiol, i wneud galwadau ffôn. Am ragor o wybodaeth am Typetalk a sut i'w ddefnyddio, cliciwch yma i fynd i wefan [Typetalk](#).

Er mwyn bodloni anghenion dioddefwyr anabl, bregus neu rai sy'n teimlo dan fygythiad a thystion yr erlyniad byddwn yn gwneud cais i'r llys am 'gamau arbennig' cyn gynted ag y bydd modd. Newidiadau yw'r rhain i'r broses neu'r amgylchedd yn y llys.

Pan fydd tyst i'r erlyniad yn rhoi tystiolaeth trwy gyfieithydd, oherwydd ei fod yn anabl neu nad Saesneg yw ei iaith gyntaf, cyfrifoldeb y CPS yw trefnu i gyfieithydd gyda chymwysterau addas ddod i'r llys.

I bobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw bydd y CPS yn trefnu i Gyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain neu Ddarllenwr Gwefusau (i'r rhai nad ydynt yn gwybod yr iaith arwyddion neu ddim yn ei defnyddio) gael ei ddefnyddio.

Pan fydd angen hynny, bydd y CPS hefyd yn sicrhau, mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb a drefnir gennym ni, y gall pob un o'r bobl fydd yno gymryd rhan lawn. Mae hyn yn cynnwys trefnu cyfieithwyr llafar, cyfieithwyr BSL cofrestredig neu ddarllenwyr gwefusau.

2. Gwneud ein gwefan yn hygyrch

Bydd y CPS yn sicrhau bod ein gwefannau yn hygyrch trwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol trwy'r Llywodraeth o ran hygyrchedd. Mae dogfen ar wahân a phenodol am hyn ar gael ar wefan y CPS. I'w darllen, cliciwch yma: [Datganiad Hygyrchedd Gwefan](#)

Ein nod yw cyhoeddi ein holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd ar-lein er mwyn eu gwneud yn hawdd eu cyrraedd.

3. Gwneud dogfennau ysgrifenedig yn hawdd eu deall

Rydym yn anelu at ddilyn cyfarwyddyd iaith glir wrth ddatblygu ein holl ddogfennau ysgrifenedig i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu ein bod yn anelu at leihau jargon a helpu i wneud ein gwybodaeth yn glir a chryno fel y gall pawb ei deall.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio 'Plain English' cliciwch yma: www.plainenglish.co.uk.

Rydym yn esbonio beth mae'r CPS yn ei wneud yn ein prif gyhoeddiadau, ac os bydd hynny'n addas rydym yn rhoi geirfa i esbonio'r termau a ddefnyddir mewn cyhoeddiad. Mae ein holl bolisiâu cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Mewn rhai achosion mae fersiwn gryno o'r polisi ar gael hefyd. Nid ydym bellach yn cyhoeddi polisiâu printiedig, ond gallwch eu cael o ofyn amdanynt trwy ffonio 020 3357 0913, anfon e-bost at publicity.branch@cps.gsi.gov.uk neu fel arall, gellir eu casglu o [swyddfa leol y CPS](#).

Byddwn yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth a chyfarwyddyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a fydd yn ein helpu i sicrhau bod y data perfformiad y byddwn yn ei roi i'r cyhoedd yn ddealladwy – mae hyn yn ymwneud â'r modd y byddwn yn cyflwyno ein data a sut yr ydym yn rhoi esboniad ysgrifenedig o'r data.

4. Rhoi gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau gwahanol

Dylai pawb gael mynediad cyfartal at wybodaeth. Felly, pan fyddwn yn cynhyrchu dogfen ar gyfer y cyhoedd ar gyfer ein gwefan byddwn yn ystyried yr angen i'w chyfieithu i ieithoedd eraill a fformatau eraill.

Mae'r cyfieithiadau sy'n bodoli yn barod a ffurfiau gwahanol ar ein cyhoeddiadau ar gael ar ein gwefan www.cps.gov.uk/publications

laith: Mae'n ofyn cyfreithiol i'n dogfennau cyhoeddus allweddol sy'n nodi sut i ymwneud â'r CPS fod ar gael ar ein gwefan yn yr un fformatau ac yn y Saesneg a'r Gymraeg. Cliciwch yma i weld [Cynllun Iaith Gymraeg y CPS](#), yn y cynllun nodir y meini prawf ar gyfer dewis pa ddogfennau y byddwn yn eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae cyhoeddiadau allweddol y CPS sydd ar gael yn Gymraeg ar gael trwy glicio yma: www.cps.gov.uk/wales/policies_and_publications/index.html

Mae rhai o'n prif gyhoeddiadau ar ein gwefan yn cael eu chyfieithu i ieithoedd heblaw'r Saesneg a'r Gymraeg. Os hoffech chi archebu cyhoeddiad mewn iaith nad yw ar gael yn barod ynddi, bydd raid i chi gysylltu â'ch swyddfa CPS yn lleol i weld os gellir ei archebu. Ond, bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol ac efallai y bydd angen i chi drefnu'r cyfieithiad yn annibynnol.

Fformatau Gwahanol: Rydym yn anelu at sicrhau, pan fydd hynny'n bosibl, bod cyhoeddiadau a gwybodaeth ar gael i'r rhai sydd eu hangen ar y ffurf sydd fwyaf addas i'w hanghenion, er enghraifft testun plaen, Braille, sain neu Easy Read.

5. Cyfathrebu trwy'r cyfryngau

Rydym yn esbonio a hyrwyddo gwaith y CPS trwy gyfryngau cenedlaethol a lleol. Fel rhan o hyn, rydym yn ymwneud yn weithredol â chysylltiadau sydd â'u prif

gynulleidfaoedd yn arbenigol ac amrywiol, fel lleiafrifoedd ethnig a du, lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, anabl, pobl ifanc a phobl hŷn. Mae'r cysylltiadau yma yn gweithredu ar-lein, trwy gopi print a thrwy ddarlledu.

6. Ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol

Mae'r CPS yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'r CPS a'r hyn yr ydym yn ei wneud, rhoi adborth i ni ar ein perfformiad, hyrwyddo cydraddoldeb a rhoi gwybod i ni am flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar bolisïau cyhoeddus a chraffu ar ein perfformiad.

Pan fyddwn yn ymgysylltu â chymunedau rydym yn anelu at wneud hynny mewn modd sy'n bodloni anghenion amrywiol pobl, er enghraifft trwy ystyried lleoliad, amseriad a fformat yr ymgynghoriad.

7. Ymdrin ag adborth a chwynion

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddarparu adborth neu wneud cwyn ynghylch unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth trwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein neu ffurflen brintiedig, e-bost a ffôn.

Gallwch weld y ffurflen a'n cyfarwyddyd llawn ar Adborth a Chwynion, mewn fformatau hygyrch trwy glicio yma:

http://www.cps.gov.uk/contact/feedback_and_complaints/

Ein nod yw cydnabod derbyn y ffurflen cyn pen tri diwrnod gwaith ac ymateb yn llawn i gŵynion cyn pen 20 diwrnod gwaith. Bydd yr holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a dadansoddi er mwyn dynodi gwelliannau y gellir eu gwneud i ddatblygu ein gwasanaethau fel y byddant yn parhau i fodloni anghenion y cyhoedd.

Gellir hefyd lawrlwytho ac argraffu'r ffurflen adborth a chwynion o [wefan y CPS](#) a'i hanfon trwy e-bost neu bost i ardal berthnasol y CPS. Mae cyfeiriadau e-bost yr holl swyddfeydd CPS ar gael ar ein gwefan.

Cysylltwch â ni am y datganiad hwn

Rydym yn croesawu adborth ar ba mor hygyrch yw ein cyfathrebiadau a sut y gellir eu gwella.

Bydd pob cais am addasiadau rhesymol (newid fyddai'n ei gwneud hi'n haws i bobl anabl gyfathrebu â ni) yn cael ei ystyried.

Er mwyn rhoi adborth, defnyddiwch y broses a ddisgrifir yn Adran 7.